



Cynllun Cynorthwyo Gwaed
Heintiedig Cymru
Wales Infected Blood
Support Scheme

CANLLAWIAU AR GYFER FFURFLEN E CAIS I DDERBYN TALIADAU HEPATITIS C DATBLYGEDIG CAM II

CANLLAWIAU AR GYFER YMGEISWYR

Mae'r ffurflen hon ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sydd eisoes yn derbyn taliadau Hepatitis C Cronig gan Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru mewn perthynas â'u haint eu hun, ac sydd bellach am wneud cais am daliadau Hepatitis C **Datblygedig Cam II**.

I fod â hawl i dderbyn y taliadau hyn, mae'n rhaid yr oedd gan yr ymgeisydd haint Hepatitis C Cronig ac wedi datblygu un o'r rhain:

- Sirosis
- Canser Sylfaenol yr Iau
- Lymffoma Cell-B nad yw'n Lymffoma Hodgkin
- wedi cael trawsblaniad iau, neu ar y rhestr aros i dderbyn un

Os yw'ch amgylchiadau yn wahanol i'r hyn sydd uchod, cysylltwch â Chynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru am arweiniad.

Mae rhagor o fanylion ar gael ar ein gwefan:

SUT I WNEUD CAIS

Dylech chi gwblhau pob rhan yn Adran 1 y ffurflen hon. Dylech chi roi'r ffurflen gyfan i weithiwr meddygol proffesiynol ar ôl hynny, a fydd yn cwblhau'r adrannau sy'n weddill. Wedyn mae'n rhaid i'r gweithiwr meddygol proffesiynol anfon y ffurflen sydd wedi ei chwblhau i Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru.

Yn gyffredinol, dylai'r gweithiwr meddygol proffesiynol fod y prif glinigydd sy'n eich trin. Mae'n debyg mai'r haematolegydd neu'r arbenigwr clefydau heintus sy'n eich trin am Hepatitis C fydd hwn, ond yn achos ymgeiswyr sydd ag anhwylderau gwaedu (megis haemoffilia), gall fod yn haematolegydd.

Os oes gennych chi unrhyw gofnodion am sut y cawsoch chi eich heintio, rhowch gopiâu i'r gweithiwr meddygol proffesiynol a fydd yn cwblhau gweddill y ffurflen.

BETH SY'N DIGWYDD NESAF

Ar ôl i'r gweithiwr meddygol proffesiynol gwblhau'r ffurflen, mae'n rhaid iddo/iddi ei hanfon, ynghyd â chopi o bob cofnod perthnasol, i Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru. A bwrw y bydd y wybodaeth a ddarparwyd yn cadarnhau'ch hawl i dderbyn taliad, cewch chi lythyr gan y Cynllun i gadarnhau hyn a bydd yn gofyn ichi ddarparu'ch manylion banc ac unrhyw brawf o'ch hunaniaeth sydd ei angen.

CYMORTH GYDA'R FFURFLEN HON

Os bydd angen cymorth arnoch chi i gwblhau'r ffurflen hon, cysylltwch â Chynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru